Cofnodion draft Cyngor Cymuned Llanbedr 7.5.26

Bu I ni geisio cael cyfarfod blynyddol ar 7.5.26 – yr un diwrnod ar Etholiad Seneddol, ond yn anffodus nid oedd quorum I gynnal y cyfarfod, felly gohiriwyd tan 14.5.26

Hwn yn gyfarfod gwell rhan nifer, ond eto dim cyfarfod llawn.

Nododd y Clerc mae'r unig gyfarfod llawn oedd un yn y gaeaf a hynny dros zoom.

Yn anffodus nid oedd cyfarpar zoom wedi gweithio y noson o'r blaen.  Methu derbyn gwahoddiad, a gwahoddiad wedi mynd I spam.

Presennoldeb – Cynghorydd Gwynfor Owen, Cynghorydd Annwen Hughes, Jane T Williams, Eirwyn Thomas, Helen Johns, John Evans, Robin Ward.

Absennoldeb  -  Luise Vassey, Kevin Titley, Nia Jones  (I gyd drwy ymddiheuriad)

Dim buddiant,

Dim cais cynllunio.

Adroddiad Cyllid

Arian yn cael ei gario trosodd £20542.41

Arian yn y banc diwedd Ebrill = ££31667.06

Taliadau a wnaethpwyd yn ystod mis Ebrill fel a ganlyn

slcc    £84.00  (Cwestiynnu a oes raid bod yn aelodau o hwn)  Wedi talu am eleni.  Edrycha r hyn y flwyddyn nesaf.

J T Thomas    £66.00

clear councils  £674.06

cymru 1    £381.60

morfudd Lloyd £1,316.38

robinsons    £207.19

delyth  £50.00

Morfudd Lloyd HMRC   £43.12

pay inspection archwiliad offer    £228.00

dyffryn iron dedesighn £325.00

Derbyn cofnodion cyfarfod diwethaf fel rhai cywir.

Cyfarfod Blynyddol.

Cafwyd adroddiad Blynyddol gan Jane Taylor Williams  ac yn diolch I bawb am eu Gwaith yn ystod yr amser mae hi wedi bod yn y gadair.  Talu diolch arbennig I'r Clerc am ei Gwaith.  Yr ethos I gael y gorau I'r Pentref.  Nododd y byddai'n dda petae aelodau ifanc yn ymuno efo'r Cyngor, neu yn galw heibio yn achlysurol I'r pwyllgora er mwyn iddynt ddysgu trefn y Cyngor ac I

godi diddordeb y neu Pentref.  Er  mwyn cryfhau y wedd gymdeithasol o fewn y Pentref ac I gryfhau perthnasedd bawb o fewn y Pentref ac I godi balchder.

Cadarnhawyd bod Eirwyn Thomas yn Gadeirydd.

Pasiwyd bod John Evans yn Is Gadeirydd.

Aelodaetha r wahanol Bwyllgora yn aros yr un fath.

Eiddo – Morfudd Lloyd a Eirwyn Thomas.

Un Llais Cymru – Robin Ward a Jane Taylor Williams

Cae Chwarae – Kevin Titley a John Evans

Y Fynwent – Annwen Hughes, Eirwyn Thomas, Jane T Williams, Morfudd Lloyd

Huchenfeld – Helen Johns, Luisse Vassey a Kevin Titley.

Cyllid a polisiau – Eirwyn Thomas. Annwen Hughes, Morfudd Lloyd, Jane Taylor Williams.

Llwybrau Cyhoeddus – Luisse Vassey a Jane Taylor Williams.

Neuadd – pawb ond Luisse Vassey.

Mabwysiadwyd y polisiau a newid ambell beth fel asesiad risk – y cwt yn y fynwent

Yna aethpwyd ymlaen gyda Gwaith misol y Cyngor. Dan ofal y Cadeirydd Newydd Eirwyn Thomas.

Bod Gwaith y Cyngor gyda cyllid a rhestr faith wedi eu hafnon at Gyngor Gwynedd, tuag at yr Archwiliad Mewnol.

Wedi apwyntio hwy ym mis Ebrill.

Eirwyn Thomas yn diolch I bwb yn enwedig I'r Clerc ac I'r cyn gadeirydd am eu Gwaith.

1. Y Fynwent – dim I'w adrodd.  Ond bod twrch daear yn y fynwent.  Angen difa rhedyn ochr ffordd llwybr at y fynwent Newydd.
2. Llwybrau cyhoeddus – heb dderbyn tender am y Gwaith yma.  Cadw at yr un llwybrau 62 Tyddyn Bach, llwybr 7, torri Coed Mawr,torri llwybr ceffyl Tyddyn Du. (ochr Dyffryn I'r ffos)
3. Coed ochr afon Pentre Gwynfryn = Jane a John am dorri brigau er mwyn clirio'r llawybr o bont Gwynfryn at Dolmygliw.
4. Cae chwarae – bod archwiliad wedi cael ei gynnal.  Risg isel ar bob dim.  Rhaid dadansoddi beth yw;r camau nesaf parthed hyn  Bagiau baw cwn wedi eu gadael yn yr ardd goffa.
5. Bin Mawr cae chwarae yn llawn.
6. Gemau peldroed yma ar y 23/5/26
7. Ffordd Sarn Hir – Ni fydd dim yn digwydd nes byddwn yn cael ffordd liniaru.
8. CCTV – Rhai camerau wedi eu prynu, cais cynllunio dim angen un.  Felly yn barod I wneud yr ail wedd rwan.
9. Camp a drones . Cwynion di ri am hedfan drones dros y Pentref.  Mae angen system o allu cyfnodi, amser, dyddiad, cyfeiriad y r hedfan

10. Gor dyfiant ymhob man - ochr ffyrdd  Dim ond 1 toriad y flwyddyn.
11. Estyn – bod Llanbedr wedi cael archwiliad Estyn yn ddiweddar.  Bod Nia Walker yn gadael diwedd y tymor, ac o fis medi ymlaen yn cael 2 ddiwrnod o waith yr wythnos gan Brifathrawes Ysgol y Traeth .

    Adroddiad Cynghorwyr Sir

    Gwynfor Owen – yn nodi Llongyfarchiadau I'r Blaid am ennill 43 o seddau yn y Cynulliad ac I Rhun ap Iorwerth am gael ei ethol yn Brifweinidog ym Mae Caerdydd (Plaid Cymru) Braf fyddai eu gwahodd I Lanbedr I weld efo'r ffordd ac yn y blaen.

    Anfon I longyfarch Mabon ar gael ei ethol unwaith eto fel aelod yn y Bae.

    Ei fod wedi bod ar 20 o gyfarfodydd zoom yn ddiweddar a hynny tra ar gyfnod gwyliau.

    Yn amser cyffrous.  Diolchodd I Jane, Eirwyn a Morfudd am eu Gwaith.

    Tax twristiaeth dan ymgynghoriad mewn sawl man

    Mater ffordd Sarn Hir – ni fydd dim yn cael eu gwneud yma nes bydd ffordd liniaru yn cychwyn.

    Nid oes yna enterprise zone yn y Camp mwyach.

    Annwen Hughes –

    Cwyn parthed baw cwn cae chwarae – I Kevin roi ar fb'

    Trafod tax twristiaeth yn y Cyngor -   AH yn datgan diddordeb.

    Is Gadeirydd Cyngor Gwynedd ydi Delyth, Dinas Mawddwy.

    Ysgol Llanbedr Newydd gael Estyn.  Ddim yn gwybod y canlyiad hyd yma.  Nododd ei bod hi a Morfudd fel aelodau o'r corff llywodraethol wedi cael eu dewis I I fod ar y panel ateb cwestiynnau I Estyn.  Y ddwy wedi bod ar daith dysgu yr Ysgol, ac arsylwi ar lyfrau a gwersi.

    Nododd Gwynfor Owen bod Ysgol Hafod Lon hefyd wedi cwblhau archwiliad Estyn ac wedi gwneud yn arbennig o dda.  Ac angen eu llongyfarch -